Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl102**

**Amseru: Arferol**

**Teitl: Sefydlu Fforwm Ieuenctid y Comisiynydd**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r Comisiynydd wastad wedi bod yn frwdfrydig o ran ymgysylltu â phobl ifanc ac mae wedi croesawu pob cyfle i wneud hynny. Ar ôl ymgynghori'n eang â phobl ifanc a phartneriaid y maes ieuenctid yn ystod 2018, y nod yw lansio Fforwm Ieuenctid cyntaf erioed Heddlu Dyfed-Powys ym mis Rhagfyr 2018. Bydd y fforwm ieuenctid yn cynnwys llysgenhadon ifanc 11-18 oed, sef y brif ddolen gyswllt ffurfiol rhwng pobl ifanc Dyfed-Powys a'r Comisiynydd, a fydd yn llywio cyfeiriad cyffredinol rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc y Comisiynydd. Bydd y Llysgenhadon Ifanc ar y Fforwm yn ymgymryd â'r rolau canlynol:

1. cynrychioli llais pobl ifanc ar faterion plismona a throseddu mewn digwyddiadau/cyfarfodydd y Fforwm;
2. bod yn llais i'r Comisiynydd Heddlu a throsedd ar lawr gwlad ac i fwydo i mewn i waith Swyddfa'r Comisiynydd.

Bydd y fforwm ieuenctid yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau gwahanol ar draws y rhanbarth. Bydd y fforwm ieuenctid yn un rhan o'r dull ymgysylltu â phobl ifanc, a fydd yn cynnwys:

a) Fforwm Ieuenctid Dyfed-Powys, i gynnwys llysgenhadon ifanc
b) gweithio mewn partneriaeth â grwpiau ieuenctid presennol ac ysgolion/colegau ar lawr gwlad
c) cyrraedd yr anoddaf i'w cyrraedd

**Argymhelliad:**
Sefydlu Fforwm Ieuenctid cyntaf y Comisiynydd a datblygu rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/1/2019